PWYLLGOR GWASANAETHAU DEMOCRATAIDD

DYDD MERCHER, 7 RHAGFYR 2016

| | |
|---|---|
| Yn bressenol: | Cynghorydd Clark(Cadeirydd) |
| | Cynghorwyr Dilwar Ali, Chaundy, De'Ath, Hyde, Murphy, Robson a/ac Wild |

23 : YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB

Derbyniwyd ymddiheuriadau am absenoldeb gan y Cynghorydd Goddard.

24 : DATGAN BUDDIANNAU

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiadau o fuddiant.

25 : COFNODION

Cymeradwywyd cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 21 Medi 2016 yn gofnod cywir, ac fe’u llofnodwyd gan y Cadeirydd.

Derbyniodd y Pwyllgor ddiweddariad ar y camau gweithredu o 21 Medi 2016.

26 : DIWEDDARIAD AR GYMORTH GWASANAETHAU AELODAU

Cymorth i Aelodau

Atgoffodd y Cadeirydd yr Aelodau, yn ei gyfarfod ar 20 Ionawr 2016, i’r Pwyllgor gymeradwyo adroddiad ac argymhellion y Grŵp Gorchwyl ar Adolygu Gwasanaethau Cymorth i Aelodau. Rhannodd Cyfarwyddwr Llywodraethu a Gwasanaethau Cyfreithiol yr adroddiad gyda’r Aelod Cabinet dros Sgiliau, Diogelwch ac Ymgysylltu cyn y broses o osod y Gyllideb ar gyfer 2016/17.

Mae’r Aelod Cabinet wedi ymateb i'r adroddiad ar 20 Medi 2016 a atodwyd fel Atodlen A.

Atgoffwyd yr Aelodau i’r Aelodau, yng nghyfarfod y Pwyllgor ar 23 Mawrth 2016, nodi bod y Cabinet wedi comisiynu Cynghorydd Adolygiad Cymorth i ystyried lefel y cymorth sydd ar gael i Gynghorwyr. Hwyluswyd yr ymarfer hwn gan cyn swyddog polisi yng Nghyngor Dinas Nottingham a rhoddwyd darnau o’r adroddiad hwnnw i'r Aelodau.

Gwahoddodd y Cadeirydd gwestiynau a sylwadau gan yr Aelodau ar gymorth i Aelodau:

- Trafododd Aelodau Swyddfa Busnes Aelodau yn Neuadd y Ddinas; nodwyd nad yw'r lleoliad na'r cyfleusterau yn addas i’r diben.
  Dywedwyd wrth yr Aelodau fod mwy o le addas wedi’i nodi, yn agos at y Fynedfa i’r Gorllewin y mae’r Chwipiau wedi’ weld a chytuno arno. Yn rhan o’r cynnig newydd, byddai cyfleusterau TG yn cael eu diweddaru. Y gobaith oedd y byddai’r symudiad yn y flwyddyn newydd unwaith y byddai’r ystafell yn wag.

- Trafododd yr Aelodau gardiau mynediad a dywedwyd wrthynt fod y mater ynghylch mynediad yn dod i ben ar ôl mis wedi'i ddatrys.

- Gan gyfeirio at yr argraffydd yn Llyfrgell yr Aelodau yn Neuadd y Sir, dywedwyd wrth yr Aelodau fod y cyfrifiaduron wedi'u diofynnu i'r peiriannau Secureprint gan ei bod yn rhatach i'w defnyddio i argraffu.

<u>System Ymholiadau Aelodau (MES)</u>

- Trafododd yr Aelodau gymorth adnoddau a staff i Aelodau a dywedwyd wrthynt fod yr adolygiad wedi argymell adnoddau ychwanegol ar gyfer Cymorth i Aelodau gan gynnwys System Ymholiadau Aelodau a mwy o gymorth cyffredinol a byddai angen i'r gyllideb gan ei chytuno gan y Cyngor Llawn; eglurwyd mai adolygiad a gomisiynwyd gan y Cabinet oedd hwn, a argymhellodd £82k ar gyfer tri Swyddog Cymorth Busnes Aelodau.

- Nododd yr Aelodau yr amser a gymerwyd i dderbyn ymatebion yn gyffredinol; anogwyd yr Aelodau i ddefnyddio'r System Ymholiadau Aelodau i gynorthwyo derbyn ymatebion o fewn yr amserlenni.
  Trafododd yr Aelodau faterion technegol a brofwyd wrth ddefnyddio'r system a gyda swyddogion yn cloi achosion nad ydynt wedi'u datrys yn llwyr; eid â'r materion hyn yn eu blaen fel gweithrediadau.

<u>Arolwg Gadael i Aelodau</u>

Dywedwyd wrth yr Aelodau y gofynnwyd i'r Pwyllgor hwn mewn cydweithrediad â'r Pwyllgor Safonau ac Etheg yn dilyn cyfarfod y Cyngor Llawn ar 24 Tachwedd greu Arolwg Gadael i bob Aelod i geisio deall profiadau Aelodau o fod yn Gynghorydd; rhesymau dros ddiswyddo; a'u barn ar gyfleoedd sefydlu a hyfforddi ar gyfer Cynghorwyr newydd. Cylchredwyd Arolwg drafft i Aelodau ar gyfer sylwadau.

- Roedd yr Aelodau yn wir falch gyda'r fformatio a'r ffaith bod blychau i ysgrifennu sylwadau i alluogi rhoi barn mwy llawn.

- Trafododd yr Aelodau y cwestiynau ar ethnigrwydd, crefydd a chyfeiriadedd rhywiol ac a yw'r rhain yn hanfodol. Dywedwyd wrth yr Aelodau fod y cwestiynau hyn o gymorth i nodi themâu a allai godi, ond bod cwestiynau'n ddewisol.

- Trafododd yr Aelodau enw'r arolwg ac awgrymon nhw y gellid ei newid i Arolwg Diwedd Gweinyddiaeth.

- Nodwyd y bydd canlyniadau'r arolwg yn ddienw ac y byddai unrhyw themâu/tueddiadau a nodwyd yn cael eu hadrodd i'r Pwyllgor Safonau a Moeseg a'r Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd.

- Gofynnodd y Cadeirydd i'r Aelodau roi unrhyw sylwadau ac adborth pellach ymhen wythnos er mwyn cylchredeg yr arolwg i'r holl Aelodau ym mis Ionawr.

PENDERFYNWYD bod y Pwyllgor yn:

1. nodi'r ymateb a dderbyniwyd gan yr Aelod Cabinet dros Sgiliau, Diogelwch ac Ymgysylltu;

2. nodi y bydd y Cyfarwyddwr Llywodraethu a Gwasanaethau Cyfreithiol yn symud ymlaen at ail-alinio gwasanaethau i'r Aelodau yn ei Chyfarwyddiaeth ac adnoddau canlyniadol ar gyfer y gwasanaethau hyn.

27 : CWRICWLWM SEFYDLU A DYSGU A DATBLYGU AELODAU MAI 2017

Dywedodd y Cadeirydd fod yr adroddiad hwn yn rhoi diweddariad ar Raglen Datblygu Aelodau 2016/17 a Rhaglen Sefydlu Aelodau drafft 2017.

Nodwyd bod dim llawer o Aelodau wedi gallu mynychu'r gweithdai wedi'u cynnal eleni. Dywedwyd wrth yr Aelodau y byddai'r holl sesiwn ar gael ar-lein yn syth ac mae'r oedi wedi bod o ganlyniad i newid i blatfform GIG; mae holl gyrsiau'r Cyngor ar-lein ar hyn o bryd megis yn nhaflen y Rhaglen Datblygu Aelodau ar gyfer 2016/17 a gylchredwyd i'r holl Aelodau yng Nghyngor ar 29 Medi 2016.

Trafododd yr Aelodau y Rhaglen Sefydlu Aelodau a gofynnodd y Cadeirydd am eglureb ar pam bod rhannau penodol o'r rhaglen yn orfodol; dywedodd y Cyfarwyddwr Llywodraethu a Gwasanaeth Cyfreithiol ei bod wedi gofyn i'r Arweinwyr Grŵp oedd am i nifer o elfennau y rhaglen fod yn orfodol, megis peidio â gallu sefyll ar Bwyllgor Craffu oni bai bod hyfforddiant wedi'i gwblhau, nodwyd fodd bynnag y byddai hyn yn ddiwygiad cyfansoddol.

Trafododd yr Aelodau ymgeiswyr posibl yn cael gwybodaeth am yr hyn y'i disgwylir ganddynt pe baent yn dod yn Gynghorydd, nodwyd mai cyfrifoldeb eu plaid gwleidyddol y byddai hyn a bod canllaw llawn ar fod yn Gynghorydd gan y CLiC.

Credodd yr Aelodau fod y rhaglen sefydlu yn yr adroddiad yn gynhwysfawr a thrafodon nhw amserlennu'r hyfforddiant sefydlu; credodd yr Aelodau y gellid cynnig dau ddyddiad gwahanol a chyfnodol, gan gynnwys sesiynau yn ystod y dydd a gyda'r nos mewn ymgais i alluogi cymaint o'r Aelodau a phosibl i fynychu.

PENDERFYNWYD bod y Pwyllgor yn:

1. nodi y cylchredwyd y Rhaglen Ddatblygu Aelodau 2016/17 i'r holl Aelodau yn y Cyngor Llawn ym mis Medi yn unol ag argymhelliad Swyddfa Archwilio Cymru i wella;

2. Cytuno ar y cwricwlwm sefydlu drafft a'r dysgu hanfodol a nodwyd ar gyfer yr holl Gynghorwyr ac yn argymell i'r Pwyllgor Cyfansoddiad bod hyfforddiant hanfodol yn cael ei ychwanegu at cylch gorchwyl y Pwyllgorau fel y mae rhwymiad i'r Aelodau ddilyn hyfforddiant hanfodol rwth symud ymlaen.

28 : PANEL ANNIBYNNOL CYMRU AR GYDNABYDDIAETH ARIANNOL – ADRODDIAD BLYNYDDOL DRAFFT 2017/18

Derbyniodd yr Aelodau adroddiad blynyddol drafft Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol yn rhan o'r broses ymgynghori.

Cynhaliwyd cyfarfod ymgynghori gyda Phanel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol y Gwasanaethau Democrataidd a Phenaethiaid Gwasanaethau Democrataidd yn Awdurdodau Ne-ddwyrain Cymru ar 21 Hydref 2016.

Y dyddiad cau ar gyfer ymatebion i'r ymgynghoriad oedd 28 Tachwedd ond cafwyd estyniad gan Gyngor Dinas Caerdydd fel y gallai'r Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd, pe bai am wneud felly, ymateb ar ôl ei gyfarfod ar 7 Rhagfyr. Roedd y Panel yn cwrdd ar 15 Rhagfyr i ystyried yr holl ymatebion.

Y tri prif faes a dynnwyd at sylw yr Aelodau oedd; Cyflog Sylfaenol; ad-dalu costau Gofal ac Absenoldeb Salwch ar gyfer Deiliaid Uwch Gyflog.

Teimlodd yr Aelodau ei bod yn bwysig bod yr holl Aelodau yn cael eu hannog i dderbyn yr ad-daliad o gostau gofal ac y dylai swyddogion fod yn rhagweithiol wrth annog hyn.

Nododd yr Aelodau bod Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol yn cynnig bod Aelodau yn derbyn cynnydd o 0.75% yn eu cyflog a bod staff yn cael cynnydd o 1%. Cynghorodd y Cyfarwyddwr Llywodraethu a Gwasanaethu Cyfreithiol y rhan fwyaf o gynghorau i gymryd cyngor Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol, mae rhai cael llai o gynnydd ac mae rhai yn cyfrannu unrhyw gynnydd at elusennau, byddai'n anodd gweinyddu trafod cynnydd uwch. Trafododd yr Aelodau lwfansau cyfrifoldebau arbennig a chredwyd y dylai grwpiau fod yn rhannu cyfrifoldebau yn ehangach, ac y dylai Chwipiau fynd i'r afael â hyn.

PENDERFYNWYD - nodi adroddiad drafft Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol a chyflwyno materion wedi'u codi i Banel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol ar ran y Pwyllgor.

## 29 : RHAGLEN WAITH 2016-17

Dywedwyd wrth yr Aelodau fod yr adroddiad hwn i adolygu blaenoriaethau'r cynllun gwaith ar gyfer cyfarfodydd Pwyllgor y Gwasanaethau Democrataidd a Grŵp Llywio Datblygu Aelodau sy'n weddill ar gyfer 2016/17.

Gofynnodd yr Aelodau fod canlyniad yr Arolwg Diwedd Gweinyddiaeth yn cael ei ychwanegu at y cyfarfod ym mis Mawrth 2017.

PENDERFYNWYD – cytuno Rhaglen Waith 2016/17, fel y nodir yn Atodlen A yr adroddiad yn amodol ar ychwanegu canlyniadau'r Arolwg ar yr agenda ar gyfer Pwyllgor mis Mawrth. .

## 30 : DYDDIAD Y CYFARFOD NESAF